Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar ansawdd addysg bellach a dysgu yn y gwaith

yng

Ngholeg Powys

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2009

Dyddiad cyhoeddi: 24 Chwefror 2010

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Gradd	**Yr hyn mae'r radd yn ei olygu**
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer flaenllaw yn y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae'r cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau y mae Estyn yn eu defnyddio a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl er arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos at 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Ychydig	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Cyd-destun

Coleg Powys yw'r prif ddarparwr addysg a hyfforddiant yng nghanolbarth Cymru. Mae'r prif gampws yn y Drenewydd ac mae campysau eraill yn Aberhonddu a Llandrindod, gyda chanolfan allymestyn yn Ystradgynlais.

Mae'r coleg yn cyflwyno ystod eang o raglenni addysg alwedigaethol ar lefelau 1, 2 a 3. Mae ganddo gontract bychan ar gyfer dysgu yn y gwaith ac mae hefyd yn gyfrifol am reoli'r rhaglen dysgu oedolion yn y gymuned ym Mhowys.

Mae tua 8,000 o ddysgwyr yn mynychu'r coleg ac mae bron 1,200 o'r rhain yn ddysgwyr amser llawn.

Mae sir Powys yn ardal denau iawn ei phoblogaeth ac mae'n cwmpasu dros chwarter ehangdir Cymru. Mae chweched dosbarth ym mhob un o'r 13 ysgol uwchradd ym Mhowys, ac maent yn cyflwyno cymwysterau TAR Safon Uwch yn bennaf.

Cafodd y rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned sy'n cael eu cyflwyno gan y coleg eu harolygu gan Estyn ym mis Mawrth 2008. Ers hynny, mae'r coleg wedi ymgymryd â chyfrifoldeb am gyflwyno'r rhaglenni hyn oddi wrth yr awdurdod lleol. Gwnaeth y tîm arolygu gyfrif am y cynnydd a wnaed gan y coleg yn cyflwyno rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned yn yr arolygiad hwn.

.

Crynodeb

Barn gyffredinol am y darparwr	**Da**
Rhagolygon gwella	**Digonol**

Barn gyffredinol

Mae'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn y coleg yn dda. Maent yn arbennig o dda mewn dysgu yn y gwaith. Mae cyfraddau'r dysgwyr yn ennill cymwysterau wedi gwella ym mhob maes dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r coleg yn elwa ar gael partneriaethau strategol cadarn â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gadarnhaol ynghylch eu cynnydd ac yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau yn y coleg.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- nid yw'r coleg wedi rhoi'r holl argymhellion o arolygiadau blaenorol ar waith yn llawn;
- nid yw'r systemau ar gyfer gwella ansawdd yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson; ac
- mae ansawdd yr addysgu a'r asesu'n amrywio'n ormodol.

Argymhellion

Mae arolygwyr wedi cytuno â Choleg Powys ar yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella:

A1 gwneud yn siŵr bod yr holl ddysgwyr yn cael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt ar gyfer medrau sylfaenol er mwyn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd;

A2 gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwneud medrau allweddol ar lefel sy'n gwella'u medrau, yn enwedig dysgwyr ar gyrsiau lefel 3;

A3 gwella ansawdd cyffredinol yr addysgu;

A4 gwella ansawdd cyffredinol yr adolygiadau o feysydd dysgu, yr arsylwadau ar wersi a'r hunanasesiadau o feysydd swyddogaethol;

A5 adolygu a diweddaru polisïau'r coleg yn rheolaidd;

A6 monitro'r holl weithrediadau y cytunir arnynt yn fwy systematig; a

A7 chynnig dull mwy cydlynus o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd Coleg Powys yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y coleg yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	**Da**

Safonau: Da

Ar draws y coleg, mae cyfraddau dysgwyr yn cwblhau ac ennill cymwysterau yn llwyddiannus yn dda o gymharu â cholegau eraill yng Nghymru ac maent wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Mae dysgwyr ar raglenni dysgu yn y gwaith yn cyflawni fframweithiau llawn ar gyfraddau sy'n uwch o lawer na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae cyfraddau dysgwyr yn cwblhau ac ennill cymwysterau mewn medrau allweddol yn dda. Fodd bynnag, nid oes digon o ddysgwyr yn ymgymryd â chymwysterau medrau allweddol yn gyffredinol.

Bu'r tîm arolygu yn samplu data perfformiad o dri maes dysgu yn fanwl: Trin Gwallt a Therapi Harddwch; Hamdden, Teithio, Twristiaeth a Chwaraeon; a Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith. Roedd cyfraddau'r dysgwyr yn llwyddo yn eu prif gymwysterau yn y meysydd hyn yn dda yn 2007-2008 ac yn 2008-2009. Roedd

cyfraddau'r dysgwyr yn ennill graddau uwch hefyd yn dda o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae dysgwyr yn y meysydd dysgu a samplwyd yn gwneud cynnydd da i raglenni eraill yn y coleg, ac i addysg uwch neu gyflogaeth newydd.

Ym mwyafrif y dosbarthiadau a arolygwyd, gwnaeth dysgwyr gynnydd da yn ystod y sesiwn. Roedd dysgwyr wedi cyrraedd pwyntiau priodol yn eu rhaglenni dysgu. Roedd dysgwyr yn gallu trafod yn fanwl lle'r oeddent yn eu rhaglen a'r hyn yr oedd angen arnynt ei wneud i symud ymlaen ymhellach ac i wella. Ym mwyafrif y sesiynau, datblygodd dysgwyr lefelau da o fedrau ymarferol a galwedigaethol. Fodd bynnag, mewn rhai sesiynau, roedd cynnydd dysgwyr yn arafach gan nad oedd yr athrawon yn herio dysgwyr yn ddigon da. Mae dysgwyr yn ennill lefelau da o fedrau galwedigaethol mewn sesiynau addysg bellach a sesiynau dysgu yn y gwaith.

Mae dysgwyr sy'n cael cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn cyflawni eu targedau ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer ohonynt yn dysgu medrau newydd y maent yn eu trosglwyddo'n dda i feysydd dysgu eraill. Fodd bynnag, nid oes gan ddysgwyr ar lefel 1 ac uwch dargedau unigol ar gyfer gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu mesur eu cynnydd unigol yn datblygu eu medrau yn ddigon effeithiol.

Lles: Da

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y sesiynau yr arsylwyd arnynt yn gadarnhaol ynghylch eu cynnydd ac yn awyddus i ddweud faint roeddent yn mwynhau eu cyrsiau. Siaradont yn frwdfrydig am eu profiadau yn y coleg ac roedd ganddynt symbyliad da. Roeddent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod o ble i gael help os oedd ei angen arnynt. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus ynghylch y medrau newydd yr oeddent wedi'u datblygu ers dod i'r coleg.

Mae bron pob dysgwr yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyrraedd sesiynau addysg bellach a dysgu yn y gwaith yn brydlon. Roedd y gyfradd bresenoldeb ar gyfer y sesiynau a arolygwyd gennym ar draws y coleg ychydig dros 90%.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni addysg bellach a dysgu yn y gwaith yn arddangos safonau ymddwyn da. Mae dysgwyr yn deall y bydd staff y coleg yn delio ag unrhyw adroddiadau am fwlio neu ymddygiad gwael ar unwaith.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	**Digonol**

Profiadau dysgu: Digonol

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion dysgwyr, y gymuned a chyflogwyr yn dda. Mae'n cynnig ystod a lefel briodol o gyrsiau ar draws nifer fawr o feysydd dysgu mewn addysg bellach, dysgu yn y gwaith ac addysg gymunedol oedolion. Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfleoedd addas i symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf, ac i addysg uwch a chyflogaeth.

Mae datblygiad a rheolaeth y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yn datblygu'n dda. Mae'r coleg yn cyflwyno ystod o gymwysterau lefel 2 yn bennaf yn effeithiol i tua 250 o ddysgwyr rhwng 14 a 16 oed o'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd lleol.

Mae'r ddarpariaeth hon yn cwmpasu pedwar maes galwedigaethol. Bu twf cryf diweddar yn y ddarpariaeth hon o sylfaen isel iawn yn 2007.
Lle bo medrau allweddol yn rhan o raglenni dysgwyr, mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol er mwyn cysylltu'r medrau'n agos ag astudiaethau galwedigaethol dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau allweddol yn amrywio'n ormodol ar draws meysydd dysgu a chyrsiau. Nid yw digon o ddysgwyr yn astudio medrau allweddol craidd ac ehangach nac yn ymgymryd â medrau allweddol ar lefel sy'n gweddu orau i'w anghenion unigol, yn enwedig dysgwyr ar gyrsiau lefel 3. Nid yw digon o athrawon yn defnyddio medrau allweddol yn effeithiol i gefnogi eu gwaith i gyflwyno pynciau fel addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, menter, addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF), a'r dimensiwn Cymreig.

Lle bo profiad gwaith yn elfen hanfodol o brif raglen dysgwyr, neu pan fyddant yn dilyn uned achrededig o brofiad gwaith, mae dysgwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith priodol neu weithgareddau priodol sy'n gysylltiedig â gwaith. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr ar sawl cwrs galwedigaethol yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Yn yr ychydig gyrsiau lle mae ADCDF yn rhan hanfodol o raglenni dysgwyr, mae wedi'i hymgorffori'n dda ac yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o faterion perthnasol. Serch hynny, mae llawer o athrawon yn colli cyfleoedd priodol i drafod materion cynaliadwyedd mewn gwersi. Mewn ambell achos, mae athrawon yn ansicr ynghylch y ffordd orau o allu datblygu ac ymgorffori'r pwnc yn y cwricwlwm.

Mae rhai dysgwyr yn ymgymryd ag agweddau ar eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, dysgwyr ar rai cyrsiau gofal. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn gwneud digon i hyrwyddo medrau iaith Gymraeg dysgwyr na'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r dimensiwn Cymreig. Mae gan y coleg Gynllun Iaith Gymraeg, ond ni chaiff hyrwyddo'r iaith Gymraeg na'r dimensiwn Cymreig ei gydlynu'n ddigon systematig.

Addysgu: Digonol

At ei gilydd, roedd ansawdd yr addysgu yn dda ym mwyafrif y gwersi a arolygwyd. Fodd bynnag, ni farnodd yr arolygwyr bod unrhyw addysgu yn rhagorol, ac roedd diffygion mewn lleiafrif o wersi.

Ym mwyafrif y sesiynau a arolygwyd, roedd yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth resymol o ddulliau addysgu. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cynllunio'u gwersi yn dda i wneud yn siwr bod dysgwyr yn cyfranogi'n llawn ac yn cael y gorau allan o'u hamser yn y dosbarth. Roedd yr athrawon yn cynnig y cyfle i ddysgwyr ddatblygu'u medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol. Roedd ansawdd rhesymol dda i ran fwyaf y taflenni. Roedd rhan fwyaf yr athrawon wedi addasu'u gwersi yn dda i ddiwallu anghenion dysgwyr, ac yn integreiddio theori yn dda yng ngwaith ymarferol dysgwyr. Yn gyffredinol roeddent yn rheoli ymddygiad yn dda yn y dosbarth.

Roedd diffygion mewn lleiafrif o wersi a arolygwyd, fodd bynnag. Roedd y rhain yn cynnwys athrawon:

- dibynnu'n ormodol ar daflenni o ansawdd gwael;

- peidio ag addasu gwaith i fodloni anghenion dysgwyr o allu amrywiol;
- peidio â defnyddio digon o holi uniongyrchol;
- peidio â rhoi digon o amser i ddysgwyr ateb cwestiynau;
- caniatáu i gyflymder gwersi lithro'n ormodol; a
- chaniatáu ymddygiad amhriodol heb ei herio.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae pob dysgwr yn gallu manteisio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd da i'w helpu i ddewis rhaglenni priodol ac i gynllunio ar gyfer dilyniant. At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud defnydd da ar y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael iddynt cyn iddynt ddod i'r coleg a phan fyddant yn dilyn rhaglen. Mae gan y coleg drefniadau sefydledig â Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys. Mae anogwyr dysgu'n rhoi cymorth priodol i ddysgwyr sydd angen arweiniad ychwanegol.

Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefnau diogelu priodol. Rhoddwyd y polisi ar waith gyntaf yn 2006 ond nid yw wedi cael ei adolygu na'i ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn cyfrif yn llwyr am ddatblygiadau'n ymwneud â diogelu. Mae trefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol ar waith gan y coleg i sicrhau addasrwydd y staff sy'n cael eu cyflogi gan y coleg.

At ei gilydd, mae'r coleg yn gwneud darpariaeth dda i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ganddo weithdrefnau priodol ar waith i nodi rhwystrau rhag dysgu cyn cychwyn a thrwy gydol cyfnod dysgwyr yn dilyn rhaglen. Yn gyffredinol, mae'r coleg yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau cefnogi eraill i wneud yn siŵr bod dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol yn cyflawni'n dda.

Yr amgylchedd dysgu: Da

At ei gilydd, mae ymwybyddiaeth dysgwyr o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Mae gan y coleg bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth manwl a phwyllgor sydd wedi'i sefydlu'n dda sy'n adolygu ac yn monitro polisïau a gweithdrefnau'r coleg o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn atgyfnerthu materion cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn sesiynau lle bo'n briodol.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cael gwersi mewn adeiladau o ansawdd da a chânt fanteisio'n dda ar adnoddau perthnasol. Cânt eu haddysgu gan staff cymwys a phrofiadol addas. Fodd bynnag, mae sawl agwedd ar yr adeiladau yn Llandrindod yn anaddas.

Cwestiwn Allweddol 3:	**Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**	**Da**

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. Mae timau o reolwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae prosesau cyfathrebu rheolwyr yn effeithiol ar draws y coleg gwledig, aml-safle. Mae'r coleg yn cyfuno

arweinyddiaeth a rheolaeth ei ddarpariaeth addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion a chymunedol yn dda.

Mae cyfeiriad strategol yn cael ei sefydlu'n glir ac yn briodol gan y corff llywodraethol, y pennaeth ac uwch reolwyr. Yn ystod cyfnod o newid sylweddol mewn rolau a chyfrifoldebau rheoli, mae arweinwyr a rheolwyr wedi cynnal lefelau da o berfformiad dysgwyr ar draws y coleg a thuedd at i fyny yn y cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu.

Mae ymateb y coleg i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Mae'r coleg, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, wedi bod yn allweddol wrth fynd i'r afael ag agenda gweddnewid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gan y coleg a'r Cyngor gynrychiolaeth gyfartal ar y Bwrdd Prosiect Strategol sydd â'r nod o gynhyrchu cynllun busnes Powys-gyfan ar gyfer gweddnewid erbyn haf 2010. Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr lleol a chaiff ei gynrychioli ar nifer o gyrff economaidd a chyrff cyflogwyr. Mae'r coleg yn cyflwyno dau gontract ProAct sylweddol ar gyfer y rhanbarth yn llwyddiannus.

Caiff y coleg ei lywodraethu'n dda. Mae llywodraethwyr yn wybodus ynghylch y cyd-destun lleol a strategol y mae'r coleg yn gweithio ynddo. Maent yn herio rheolwyr yn dda ac yn canolbwyntio'n gadarn ar anghenion dysgwyr a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Maent wedi arwain y coleg yn dda o ran nodi ei rôl yn nyfodol addysg a hyfforddiant ôl-16 ym Mhowys. Fodd bynnag, nid yw'r corff llywodraethol yn adolygu cwynion yn systematig yn ddigonol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gwaith strategol mewn partneriaeth yn datblygu'n dda, yn enwedig gwaith y coleg gyda'r awdurdod lleol ar gyfer addysg 14-19 oed o ran cynllunio ar y cyd. Mae partneriaethau gydag ysgolion wedi gwella llawer ac maent yn effeithiol ar y cyfan. Mae'r coleg yn dechrau gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd lleol i nodi meysydd ar gyfer gweithio ar y cyd, er mwyn cynyddu'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr ôl-16. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae darparu adnoddau ar y cyd a sicrhau ansawdd.

Mae uwch reolwyr yn cynrychioli'r coleg yn dda mewn ystod eang iawn o bartneriaethau strategol ym Mhowys ac ardaloedd cyfagos, gan gynnwys y bwrdd gwasanaeth lleol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn ymateb i fentrau addysgol cenedlaethol yn effeithiol. Maent yn cymryd rôl arweiniol yn y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ac yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau dysgu gydol oes. Maent yn gweithio'n arbennig o dda gyda darparwyr eraill dysgu yn y gwaith yn y rhanbarth.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae staff y coleg yn ymgymryd ag amrywiaeth o adolygiadau ansawdd o lefel cwrs i lefel y sefydliad. Fodd bynnag, mae amrywiaeth helaeth yn ansawdd yr adolygiadau hyn. Yn yr achosion gorau, mae'r adolygiadau yn fanwl, yn arfarnol ac yn defnyddio data'n dda, ond nid yw eraill wedi'u datblygu cystal. Nid yw'r coleg yn cynnal hunanasesiadau o feysydd swyddogaethol. Mae'r rhan fwyaf o arsylwadau gwersi a

wneir gan staff y coleg yn nodi arfer dda mewn addysgu yn effeithiol, ond yn aml, mae'r barnau a wneir mewn perthynas â'r dystiolaeth sy'n cael ei chofnodi, yn rhy hael.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cymryd rhan yn arolwg peilot 'Llais y Dysgwr' APADGOS. Maent wedi ymgymryd ag arolwg sefydlu ar draws y Coleg am y tro cyntaf, er mwyn cael barn dysgwyr. Er bod dadansoddi cychwynnol wedi cael ei wneud a bod y canfyddiadau wedi cael eu rhannu gyda dysgwyr, nid yw rheolwyr eto wedi cael cyfle i ddadansoddi ymatebion yn llawn er mwyn rhoi mwy o welliant ar waith. Ni chynhelir unrhyw arolygon o staff. Er nad oes unrhyw arolygon ffurfiol o gyflogwyr a chymunedau lleol, mae mecanweithiau effeithiol ar waith gan y coleg ar gyfer ceisio'u barn.

Mae Cynllun Gweithredu Rheoli (CGRh) y coleg yn helpu rheolwyr i fonitro ystod eang o ddangosyddion perfformiad ac i gynllunio ar gyfer gwella. Caiff athrawon fanteisio'n dda ar ddata a gwybodaeth ddibynadwy am ddeilliannau dysgu. Er bod llawer o gynlluniau gweithredu ar gyfer gwella ar waith fel rhan o brosesau adolygu sefydliadol, mae diffyg targedau penodol a mesuradwy mewn gormod ohonynt.

Mae'r coleg wedi cynnal neu wedi gwella deilliannau dysgwyr ers yr arolygiad diwethaf. Er bod y coleg wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau arolygu blaenorol, mae cynnydd mewn rhai achosion wedi bod yn rhy araf. Hefyd, mae cynnydd y bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym Mhowys sy'n cael ei harwain gan y coleg wedi bod yn araf o ran llawer o'r argymhellion a wnaed gan dîm Estyn yn ystod yr arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned ym Mawrth 2008. Serch hynny, mae'r bartneriaeth a arweinir gan y coleg wedi gwneud cynnydd da mewn meysydd fel addysg sylfaenol oedolion a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill.

Mae gan y coleg ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau, a gall staff a myfyrwyr weld y rhain ar y rhyngrwyd. Fodd bynnag, mae gormod o'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn wedi dyddio ac nid ydynt wedi cael eu hadolygu na'u diweddaru'n ddigon systematig.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau'n effeithiol. Mae rheolwyr wedi dechrau defnyddio arolygon meincnodi i fynd i'r afael â materion effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae'r coleg yn cysylltu dyraniadau adnoddau â chynlluniau datblygu darpariaeth yn dda. Mae wedi datblygu ei strategaeth ystadau'n briodol i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r agenda gweddnewid a dyfodol ei gampysau. Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i chynllunio'n dda i gyflawni blaenoriaethau strategol y coleg.

At ei gilydd, mae'r deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda ac mae'r coleg yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Y tîm arolygu

Eleanor Davies AEM	Arolygydd Arweiniol
Janice Thomas AEM	Arolygydd Tîm
Bernard Hayward AEM	Arolygydd Tîm
Chris Hooper AEM	Arolygydd Tîm
Gill Downer AEM	Arolygydd Tîm
Una Connolly AEM	Arolygydd Tîm
Stephen Davies AEM	Arolygydd Tîm
Mark Evans AEM	Arolygydd Tîm
Celia Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Ian Dickson	Arolygydd Cymheiriaid
Jasbir Dhesi	Arolygydd Cymheiriaid
Alma Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Catrin Rees	Arolygydd Cymheiriaid
Arwyn Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Paul Shankland	Arolygydd Cymheiriaid
Sian Pinner	Enwebai'r darparwr

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2010 : Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**